# Cyngor Cymuned Llanpumsaint
# Nodiadau Cyfarfod: 15.09.2021
# Neuadd Goffa 8.00 y.h

**Presennol: Cadeirydd y Cyngor Arwel Nicholas, Cynghorwyr Dylan Jones, Danny Davies, Elfed Davies, Derick Lock**
**Ymddiheuriadau: Pamela Jones.**

| Rhif Agenda | Nodiadau/ Penderfyniadau | I'w weithredu gan |
|---|---|---|
| Ymddiswyddo | **Gethin Evans** wedi cynnig ei ymddiswyddiad oherwydd bygythiadau Archwilio Cymru. | |
| Datgan Buddiannau | Neb | |
| Cofnodion | Cytunwyd eu bod yn gywir **- ED & DD** | |
| Materion yn Codi | Clerc yn diweddaru'r Cyngor ar y sefyllfa gyda Archwilio Cymru.<br>**Dau Gynghorydd** yn brin bellach, **AN** yn awgrymu aros tan Etholiadau Mis Mawrth cyn ethol/cyfethol eto.<br>**Bont y Ffatri** - Nid yw'r gwaith wedi cychwyn eto oherwydd cais gan drigolion lleol i godi troedfont dros dro ar gyfer teuluoedd sydd a phlant yn ysgol Llanpumsaint. Mae'r Adran Briffyrdd yn cynnal trafodaethau gyda'r tirfeddiannwyr a rhaid dod i gytundeb gyda hwy gyntaf.<br>**Wendy Walters** - Clerc wedi ysgrifennu at Prif Weithredwr y Cyngor Sir ond heb dderbyn ateb. | |
| Gohebiaeth | **Blychau B**T - Y Ficer, y Parchedig Gaynor Jones Higgs yn gofyn am gael defnyddio Blwch fel stondin cyfnewid llyfrau. Prosiect i ieuenctid yr Eglwys fydd paentio'r Blwch a'i addurno gyda silffoedd.<br>Cytunwyd o blaid y cais ond fod adolygu'r sefyllfa yn flynyddol i fod. Clerc i wneud ymholiadau ynglyn a yswiriant ac i brisio paent a nwyddau sydd yn anghenrheidiol ar gyfer addurno. Cytunwyd mai gwaith er budd y gymuned oedd hwn.<br>**Comisiwn Elusennau** - Y Comisiwn yn gofyn am weithredu ar elusen Evans & Lloyd oherwydd nad oes defnydd yn cael ei wneud ohonno. Awgrym y Comisiwn yw cau'r cyfrif a gosod yr arian mewn cyfrif elusen/achos da lleol. **AN** am wybod pwy yw'r Ymddiriedolwyr. **ED & DD** yn gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau. | |
| Cynllunio | Dim | |
| Materion Ariannol | **Praesept** - £2742.27 wedi ei dderbyn.<br>**Yswiriant Zurich** £311.89- Clerc yn diweddaru'r Cyngor am y sefyllfa, nad oes llawer o ddewis ym myd yswiriant Cynghorau Cymuned oherwydd mai asiantau yw pob cwmni yswiriant arall ond fod Zurich yn gwmni yswiriant go iawn. **ED & DD** yn cynnig talu. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Orchardwe**b, £60.00. Cytunwyd ei dalu **DD & DJ**.<br>**AN** yn cyfeirio nad oedd anfoneb oddi wrth y Clerc. Clerc yn dweud iddo beidio a chodi tâl yn erbyn y Cyngor oherwydd anghydfod Archwilio Cymru. Y Cynghorwyr o blaid i'r Clerc osod anfoneb gerbron y Cyngor a **DD** yn dweud fod angen i'r Clerc godi anfoneb am y ddyled erbyn y cyfarfod nesaf. | |
| UFA | **Lyn Thomas Brynmeillion** wedi cynnig bod yn Gynghorydd. **DD** yn cynnig fod y mater yn cael ei ohirio tan Fis Mawrth 2022. **AN** yn meddwl dylid ei wahodd cyn hynny ond **DL** am aros nes bod diflasdod AC wedi terfynnu.<br>**DL** - Pam nad ydi'r Cyfieithydd yn cael ei thalu? Esboniodd y Clerc fyddai anfoneb yn dod erbyn y cyfarfod nesaf. Goleuadau stryd heb eu diweddaru i gyd, golau oren dal i lewyrchu gerllaw y Ficerdy. **DJ** yn ychwanegu fod un golau oren heb ei drosi yn Nebo hefyd. Clerc yn dweud iddo dynnu sylw'r Cyngor Sir at olau nad oedd yn gweithio gerllaw Caersalem ond nad oedd hwnnw wedi ei gywiro eto. Clerc i dynnu sylw'r adran berthnasol i'r diffyg gwaith cynnal a chadw. Goleuadau dros dro ar y B4301 gerllaw yr hen safle sbwriel ddim yn gweithio,a sefyllfa erchyll yr heol.<br>**DD** - Dim<br>**ED** - Y ganolfan ail-gylchu; beth sydd yn digwydd? Oherwydd gweithrediadau anghymdeithasol, dymuna'r Neuadd gau'r safle. Clerc yn esbonio iddo gysylltu gyda'r Cyngor Sir ac i'r mater gael ei gyfeirio at yr 'Environmental Hub'. Heb dderbyn ateb wrthynt.<br>**AN -** Arwyddion Capel Ffynnonhenri, dau i fod, un gerllaw Maes y Ffynnon/Gors Goch, a'r llall ar gyffordd Nantygelli.a'r ddau wedi cael eu tynnu lawr, paham? Clerc i wneud ymholiadau.<br>Clerc yn gofyn i'r Cynghorwyr ystyried gorchymyn i'r Prif Weinidog i orfodi ymddiswyddiad yr Archwilydd Cyffredinol, Adrian Crompton oherwydd ymddygiad anfaddeuol y corff cyhoeddus tuag at Gyngor Cymuned Llanpumsaint. Ar ôl trafodaeth, cytunwyd aros i glywed beth fyddai barn Yswiriant Zurich am amddiffyn y Cyngor rhag ymosodiadau'r Archwilydd. | |
| Cyfarfod yn gorffen | 9.30 | |

Cafwyd yn gywir : …………………..
(Cadeirydd)

Dyddiad : ……………..

Cafwyd yn gywir : …………………..
(Ysgrifennydd)

Dyddiad: ……………………………